



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru

Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd





Vaughan Gething, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd Cymru Iachach (2018) yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn system sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r iechyd gorau posibl, oedi neu atal afiechyd a galluogi pob dinesydd yng Nghymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd, arbenigedd ac ymyriadau Gweithwyr Proffesiynol cofrestredig Perthynol i Iechyd a'u staff cymorth medrus.

Mae'n gyfnod cyffrous i weithio fel aelod o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru. Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn arweinwyr adsefydlu naturiol a thrwy eu harbenigedd, eu dyfeisgarwch a'u dull seiliedig ar atebion, gall Cymru ddatblygu'r gwasanaethau adsefydlu gorau yn y byd. Gall adsefydlu, ail-alluogi ac adfer ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau a bydd yn newid o ddulliau adferol i ddulliau digolledu ac addasol dros amser. Ar hyn o bryd, nid yw arbenigedd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol mewn lleoliadau atal, iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol, lle gallant ein helpu i wireddu'r weledigaeth o alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ledled Cymru yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau i'r eithaf i helpu i sbarduno'r gwaith o weddnewid iechyd a gofal cymdeithasol fel y'i disgrifir gan *Cymru Iachach* (2018)¹ ac rwy'n awyddus i'w cefnogi i wneud hynny. Credaf fod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn barod i ymateb i'r her fel proffesiynau unigol ac fel grŵp cyfunol i ddangos y gwahaniaeth y gallant ei wneud o ran gwella bywydau dinasyddion a sicrhau gofal sy'n seiliedig ar werth, ble bynnag y maent yn gweithio yng Nghymru.

Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno'r newid sydd ei angen mewn gwasanaethau ac rwyf yn disgwyl i wasanaethau iechyd a gofal ddatblygu cynlluniau clir ar gyfer gwasanaethau proffesiynol perthynol i iechyd sy'n lleol ac yn gynaliadwy a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bobl yng Nghymru.

Rwyf am eu gweld yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n gyflym er mwyn gwireddu'r weledigaeth o gynorthwyo dinasyddion i gyflawni hyd eithaf eu potensial – yn gorfforol, yn wybyddol, yn gymdeithasol ac yn seicolegol.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno'r ymateb strategol i Cymru Iachach (2018) gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae'n disgrifio'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw, y gwerth y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) yn ei gynnig a'r camau sydd eu hangen i helpu i gynyddu eu gwerth a'u heffaith. Diben y fframwaith AHP hwn yw sicrhau:

- Bod dinasyddion yn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cael gofal a thriniaeth o'r safon uchaf bob amser.
- Bod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn sefydlu iechyd a gofal sy'n seiliedig ar werth ar y cyd ac yn unigol. Maent yn defnyddio eu sgiliau, eu profiad a'u gwerthoedd proffesiynol i arwain a darparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella bywydau dinasyddion yng Nghymru.

Mae'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn 13 proffesiwn unigol sy'n gysylltiedig oherwydd eu bod yn credu ei bod yn bwysig galluogi dinasyddion i fyw'r bywydau maent am eu byw. Yn unigol ac ar y cyd, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio i rymuso pobl o bob oed, o'r crud i'r bedd, i reoli eu lles eu hunain ac atal neu leihau effaith salwch seicolegol a chorfforol ac anabled.

Maent yn cyflawni canlyniadau cryf, ymarferol, sy'n canolbwyntio ar atebion ac yn rhoi gwerth i fywyd drwy gasgliad unigryw o ymyriadau bio/seico/cymdeithasol sy'n arbennig o werthfawr wrth ymateb yn effeithiol i anghenion cymhleth, aml-ddimensiwn y boblogaeth. Gall y rhain:

- atal derbyniadau diangen i'r ysbyty
- lleihau hyd arhosiad
- hwyluso rhyddhau diogel a chynaliadwy
- galluogi pobl i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau gofal hirdymor
- caniatáu i bobl aros mor annibynnol â phosibl cyhyd ag y bo modd.

Nid yw AHPs wedi bod yn bartneriaid gweladwy a chydadd yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol bob amser. Mae hyn wedi cyfyngu ar eu gallu i wella canlyniadau iechyd i ddinasyddion ac i leihau'r effaith y mae anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol yn ei chael ar lesiant. Er mwyn cynyddu eu gwerth i'r eithaf, rhaid i'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd gael eu defnyddio'n fwy effeithiol i ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach, bod yn fwy hygyrch, a gweithio ar frig eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol. Mae'r AHPs wedi datblygu a chytuno ar chwe egwyddor graidd i ddisgrifio'r trawsnewid hwn:



Bydd angen i ymyriadau AHPs sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n galluogi ac yn canolbwyntio ar adferiad fod ar gael yn ehangach ym maes iechyd y cyhoedd, gofal sylfaenol a chymunedol. Mae angen datblygu modelau mynediad uniongyrchol, hunangyfeirio ac ymarferwyr cyswllt cyntaf er mwyn ateb y galw. Ar hyn o bryd, nid oes digon o wasanaethau AHP ar gael y tu allan i'r wythnos waith draddodiadol. Ceir darpariaeth annigonol o ymyriadau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer, gofal canolraddol ac adsefydlu cymunedol i wneud y gorau o allu pobl i fyw mor hir â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl.

Mae'r fframwaith AHP hwn yn adlewyrchu *Cymru Iachach (2018)* ac mae'n defnyddio'r nod pedwarplyg a gydnabyddir yn rhyngwladol fel cysyniad trefnu i ddisgrifio'r newidiadau sydd eu hangen ar sail yr egwyddorion hyn. Bydd hyn yn arwain at AHPs yn gweithio mewn partneriaeth â dinasyddion i gyflawni bywydau hirach, iachach a hapusach drwy:

1. Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth
2. Gwella ansawdd AHPs a mynediad atynt

3. Sicrhau gwerth uwch gan AHPs drwy drawsnewid

4. Ysbrydoli gweithlu AHP bywiog

Fe'u disgrifir mewn diagram yn Ffigur 2 (t16). Mae'r cynllun gweithredu'r fframwaith yn Atodiad 1 yn nodi'r canlyniadau a'r camau sydd eu hangen i drawsnewid gwasanaethau.



Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb Gweithredol	3
Adran 1 Cyflwyniad	7
Adran 2 Sicrhau'r Gwerth Mwyaf gan AHPs	10
Adran 3 Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd	12
1. Ysbrydoli a Galluogi Pobl i Fyw Bywydau Iachach: Meithrin Gwydnwch yn y Boblogaeth	12
2. Hygyrchedd ac ymatebolrwydd i ddinasyddion	12
3. Datblygu Hunaniaeth a Phresenoldeb ar y Cyd: AHPs yn gweithio ar frig eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol	13
Adran 4 Fframwaith AHP i Gymru	16
1. Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth	17
2. Gwella ansawdd AHPs a mynediad atynt	18
3. Sicrhau gwerth uwch gan AHPs drwy drawsnewid	18
4. Ysbrydoli gweithlu bywiog yn y proffesiynau perthynol i iechyd	19
Adran 5 Atodiadau	22
Adran 1: Cynllun Gweithredu'r Fframwaith	22
Adran 2: AHPs sy'n cael eu cynnwys yn y fframwaith	31
Adran 3: Methodoleg	32
Ffigur 1 Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd chwe egwyddor graidd ar gyfer trawsnewid	10
Ffigur 2 Fframwaith AHP Cymru: Y nod pedwarplyg	16



Adran 1 | Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn yn cyflwyno'r ymateb strategol i *Cymru Iachach (2018)* gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae'n disgrifio'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw, y gwerth y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) yn ei gynnig a'r camau sydd angen eu cymryd i helpu i sicrhau'r gwerth mwyaf. Mae'r fframwaith hwn yn ymwneud â grŵp penodol o AHPs a restrir yn Atodiad 2 ac yn croesawu eu gwaith gyda phob dinesydd o'r crud i'r bedd, sy'n byw gydag anghenion seicolegol, cymdeithasol a/neu gorfforol. Mae'n mynegi'r dyheadau cyfunol ac unigol ar gyfer cyfeiriad AHPs yn y dyfodol yng Nghymru ar draws y gweithlu cyfan.

Yn y fframwaith drwyddo draw, defnyddir yr enw llawn ar gyfer y Proffesiynau Perthynol i Iechyd ond cyfeirir at y gweithlu o Weithwyr Proffesiynol Cysylltiedig ag Iechyd (boed yn staff cofrestredig neu staff cymorth) fel AHPs. Mae 'therapiau' yn derm cyfunol a ddefnyddir yng Nghymru sy'n 'gweddu' i rai o'r proffesiynau yn well na'i gilydd ac nid yw'n cynrychioli'r grŵp cyfan yn llawn. Mae'r termau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd neu Broffesiynau Perthynol i Iechyd yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin ledled y byd. Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau cyhoeddedig yng Nghymru yn defnyddio'r termau hyn hefyd. Mae'r fframwaith hwn wedi mabwysiadu terminoleg ryngwladol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu hunaniaeth gyfunol a chydabyddiaeth i'r gweithlu pwysig hwn, sy'n ffurfio tua thraean o weithlu cofrestredig y GIG.

Mae *Cymru Iachach (2018)* yn cyflwyno'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan ddi-dor' sy'n canolbwyntio ar lesiant ac atal salwch sy'n galluogi pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach, gan barhau'n fywiog yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag sy'n ymarferol. Bydd sgiliau ac ymyriadau proffesiynol y Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cefnogi'r symudiad i system 'iechyd da' sy'n canolbwyntio ar ragweld anghenion iechyd. Mae eu harbenigedd yn elfen hanfodol o ymyrryd yn gynnar i atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael,

gan alluogi dinasyddion ledled Cymru i fyw mor annibynnol â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl.

*Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru (2018)*¹ yw'r dull a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru. Mae'r model yn disgrifio sut mae gwasanaethau lleol yn cydweithredu drwy'r clystyrau gofal sylfaenol i ddarparu mynediad uniongyrchol i gasgliad ehangach o ymarferwyr aml-broffesiynol, gan gynnwys AHPs, fel pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Arweinydd Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol wedi sefydlu Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru (2018)² gyda chwe ffrwd waith i ddatblygu hyn a mabwysiadu'r Model Gofal Sylfaenol cyfan.

Mae AHPs yn brofiadol ac yn gyfforddus yn gweithio yn y model iechyd cymdeithasol, sy'n cydnabod bod iechyd yn cael ei ddylanwadu gan bob math o ffactorau unigol, rhyngbersonol, sefydliadol, cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol ac economaidd. Mae eu hymyriadau'n ystyried y ffactorau hyn ac yn lleihau eu heffaith, ynghyd ag effeithiau hirdymor afiechyd ar fywyd bob dydd. Gall ymyriadau AHP atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, cyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau'r angen am wasanaethau iechyd a gofal hirdymor. Mae AHPs yn gweithio gyda phobl o bob oedran sydd angen gofal iechyd a chymdeithasol meddyliol a chorfforol. Fe'u cyflogir ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol, mewn carchardai, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal ac amrywiaeth eang o amgylcheddau cymunedol.

Roedd yr *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018)*³ yn mynegi'r angen am ddull newydd o gynnal a gwella iechyd a lles. Fel yng ngweddill y byd, mae Cymru'n wynebu newidiadau sylweddol yn y galw, cymhlethdod cynyddol a disgwyliadau'r cyhoedd o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd yr *Adolygiad Seneddol a Cymru Iachach (2018)* yr angen i wneud y gorau o werth gwasanaethau iechyd a gofal. Mae Lewis (2018)⁴ yn disgrifio gofal ar sail gwerth fel:

1 [www.primarycareone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Primary%20Care%20Model%20for%20Wales%20Written%20description%20_%20April%202019%20\(cym\).pdf](http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Primary%20Care%20Model%20for%20Wales%20Written%20description%20_%20April%202019%20(cym).pdf)

2 www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Strategic%20Programme%20for%20Primary%20Care%20WT%20%28Cym%29.pdf

3 www.gweddill.gov.wales/topics/health/nhswales/adolygu/?lang=cy

4 www.nhsconfed.org/blog/2018/01/is-value-based-healthcare-the-only-game-in-town-for-a-sustainable-nhs

“Swyddogaeth o ganlyniadau a chostau ... er mwyn sicrhau gwerth uchel rhaid inni ddarparu’r canlyniadau gorau posibl yn y ffordd fwyaf effeithlon – canlyniadau sy’n cyfrif o safbwynt yr unigolyn sy’n derbyn y gofal iechyd, yn hytrach na mesurau neu dargedau proses gan y darparwr. Mae hyn yn ein hannog i ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau gan unigolion o ran eu gofal ac i sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu er mwyn y gwerth gorau.”

Diben y fframwaith AHP hwn yw sicrhau:

- Bod dinasyddion yn cyflawni canlyniadau sy’n bwysig iddyn nhw ac yn cael gofal a thriniaeth o’r safon uchaf bob amser
- Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn sefydlu iechyd a gofal sy’n seiliedig ar werth ar y cyd ac yn unigol. Maent yn defnyddio eu sgiliau, eu profiad a’u gwerthoedd proffesiynol i arwain a darparu gofal sy’n seiliedig ar dystiolaeth i wella bywydau dinasyddion yng Nghymru



Adran 2 | Sicrhau'r Gwerth Mwyaf gan AHPs

Mae cyd-forbidrwydd cynyddol, eiddilwch a goroesi gyda chyflyrau neu anafiadau cymhleth sy'n newid bywydau wedi newid natur a lefel y gofal sydd ei angen ar ddinasyddion. Mae'r arbenigedd ymarferol, sy'n canolbwyntio ar atebion ac sy'n cadarnhau bywyd, sydd gan AHPs yn arbennig o werthfawr wrth ymateb yn effeithiol i'r newidiadau hyn a mynd i'r afael ag anghenion cymhleth, aml-ddimensiwn y boblogaeth. Eto i gyd, nid yw AHPs wedi bod yn bartneriaid gweladwy a chyfartal yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol bob amser. Mae hyn wedi cyfyngu ar eu gallu i wella canlyniadau iechyd i ddinasyddion ac i leihau'r effaith y mae anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol yn ei chael ar eu llesiant.

Er mwyn cyflawni diben y fframwaith a gwneud y gorau o'r gwerth y maent yn ei gynnig, mae'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd wedi cydnabod pwysigrwydd mynegi eu gwerth. Rhaid eu defnyddio'n fwy effeithiol i ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach, bod yn fwy hygyrch, a gweithio ar frig eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol. Mae'r AHPs wedi datblygu a chytuno ar chwe egwyddor graidd i ddisgrifio'r trawsnewidiad hwn (Ffig 1).



Ffig 1 | Chwe egwyddor graidd ar gyfer trawsnewid Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

- **1. Ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach**

Gweithio ar y cyd â hwy ac eraill i weddnewid eu bywydau; bod yn ymatebol i bobl a'u cymunedau, ac yn gysylltiedig â hwy; darparu adnoddau a chefnogi cymunedau a gwella iechyd y boblogaeth.
- **2. Meithrin gwydnwch yn y boblogaeth**

Ail-gydbwyso gwaith AHPs i hyrwyddo llesiant, atal ac ymyrraeth gynnar; gwneud y gorau o alluoedd; cefnogi cyfrifoldeb personol; grymuso pobl i reoli eu llesiant eu hunain.
- **3. Hygyrchedd ac ymatebolrwydd**

Bod yn ymarferwyr cyswllt cyntaf sydd â phresenoldeb cryf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, y sector annibynnol a'r trydydd sector; yn hawdd cael gafael arnynt 24/7 lle bo'n briodol a gweithio y tu allan i ffiniau proffesiynol traddodiadol; bod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn gydweithredol gan ymateb i anghenion pobl gydol eu bywyd.
- **4. Hunaniaeth a phresenoldeb cryf**

Cydnabyddiaeth fel aelodau amhrisiadwy a hanfodol o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; ar flaen y gad o ran arloesedd o ansawdd uchel ag effaith sylweddol mewn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n datblygu; llais cryf, credadwy a chyfunol dros newid sy'n hyrwyddo gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r dinasyddion sydd eu hangen.
- **5. Arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol**

Arweinwyr AHP ar bob lefel o'r system sy'n gallu dylanwadu a llywio cyfeiriad strategol a gwleidyddol; arweinwyr AHP annibynnol sy'n meithrin rhagoriaeth yng ngweithlu'r dyfodol drwy gadw, meithrin a datblygu doniau.
- **6. Gweithio ar frig eu trwydded broffesiynol**

Mynegi gwerth, arwain a sicrhau gwelliant; dysgu'n barhaus, arloesi gyda syniadau newydd, dangos a rhannu arferion gorau; mabwysiadu technoleg i wella'r gwasanaethau a ddarperir; myfyrio a herio eu hunain ac eraill i fod yn ymarferwyr ymreolaethol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar werth.



Adran 3 | Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd

1. Ysbrydoli a Galluogi Pobl i Fyw Bywydau Iachach: meithrin gwydnwch yn y boblogaeth

Yn unigol ac ar y cyd, mae AHPs yn gweithio'n gyd-gynhyrchiol â dinasyddion i'w grymuso i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain ac atal neu leihau effaith salwch ac anabled. Mae gan AHPs gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn mynegi'r hyn a wnânt, y dystiolaeth sy'n sail i'w hymarfer a gwerth eu gwaith o ran canlyniadau i ddinasyddion. Bydd sefydlu diwylliant o gydweithredu a phartneriaeth â dinasyddion, cydweithwyr yn y gweithlu iechyd a gofal a sectorau eraill yn sicrhau'r effaith a'r gwerth mwyaf gan AHPs bob amser, gan rymuso dinasyddion i sicrhau cymorth effeithiol, di-dor sydd wedi'i integreiddio'n dda pan fo'i angen arnynt. Er mwyn ysbrydoli a galluogi pobl i fyw bywydau iachach, bydd AHPs yn parhau i gynyddu eu cysylltiad â dinasyddion yn eu cymunedau. Bydd canolbwyntio mwy ar gefnogi llesiant, atal ac ymyrraeth gynnar yn grymuso pobl a chymunedau i reoli eu llesiant eu hunain ac i feithrin cadernid. Mae AHPs eisoes yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio sydd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*⁵.

Rhaid i welliant parhaus fod wrth wraidd trawsnewid sgiliau a chwmpas ymarfer AHPs er mwyn galluogi pobl i fyw bywydau iachach. Bydd angen rhoi mwy o sylw i addysg cyn ac ar ôl cofrestru er mwyn datblygu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau i arwain newid trawsnewidiol a nodi ymyriadau gwerth uchel drwy dystiolaeth, data a gwybodaeth. Rhaid defnyddio tystiolaeth fel sail i benderfyniadau a ffurfio barn glinigol effeithiol mewn ffordd briodol a gyfarwyddir gan yr unigolyn sy'n addas i amgylchiadau a blaenoriaethau unigol y dinesydd. Mae *Moderneiddio Gyrfaoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru (2016)*⁶ yn amlinellu pedair colofn ymarfer i lywio disgwyliadau datblygiad gyrfaoel personol a phroffesiynol AHPs: Addysg, Ymarfer Clinigol, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ymchwil a Datblygu. Bydd angen cynyddu nifer y AHPs sy'n gwneud gwaith ymchwil, yn enwedig y rhai sydd mewn swyddi Ymgynghorydd ac Uwchymarfer Clinigol, er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn.

Yn ogystal, mae angen strwythur gyrfa amlwg ym mhob un o'r proffesiynau sy'n cynnwys swyddi academaidd ac ymchwil.

2. Hygyrchedd ac ymatebolrwydd i ddinasyddion

Ni ellir cael mynediad digon uniongyrchol na digon cynnar i AHPs bob amser drwy'r llwybrau a'r prosesau presennol. Mae'n hanfodol bod dinasyddion yn gallu cael mynediad at AHPs lle bynnag a phryd bynnag y bydd angen iddynt wneud hynny, gan ddarparu ateb cyflym i'w problemau heb greu llwybrau atgyfeirio a throsglwyddo ychwanegol mewn gwasanaethau. Mae angen i lwybrau i gael mynediad uniongyrchol at AHPs fod yn hawdd a chyson ledled Cymru er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn gallu dod o hyd i wasanaethau a 'dewis yn ddoeth'. Mae angen i gyfran uwch o wasanaethau AHP fod yn hygyrch 24/7 er mwyn ymateb yn effeithiol mewn argyfwng, datrys argyfyngau a sefyllfaoedd gofal sylfaenol y tu allan i oriau. Bydd AHPs yn datblygu capasiti a gallu i gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'⁷ hefyd ac yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan gydnabod pwysigrwydd darparu gofal yn iaith gyntaf pobl, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed fel dinasyddion sy'n dioddef o ddementia, plant ifanc neu ddinasyddion sydd ag anghenion cyfathrebu.

Bydd angen ail-gydbwysu'r gweithlu i ddarparu mwy o ofal yn agosach i'r cartref gan ganolbwyntio mwy ar iechyd y cyhoedd a hybu iechyd. Fel y disgrifiwyd gan Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd y DU (2019)⁸, bydd cyfran fwy o'r gweithlu'n cael ei hystemyn i ofal iechyd y cyhoedd, gofal sylfaenol a chymunedol a'u lleoli mewn amgylcheddau fel ysgolion, gweithleoedd dinasyddion, amgylcheddau cymunedol a chartrefi pobl.



5 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-1-canllaw-craidd.PDF

6 www.networks.nhs.uk/nhs-networks/ahp-networks/documents/Modernising_AHP_Careers.pdf

7 www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/415/A%20active%20offer%20information%20pack%20-%20FINAL1.pdf

8 www.ahpf.org.uk/files/UK%20AHP%20Public%20Health%20Strategic%20Framework%202019-2024.pdf

Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn cyflwyno'r agenda ar gyfer defnyddio'r gweithlu AHP mewn timau aml-broffesiynol sy'n integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n darparu'r strwythur hefyd i AHPs fod ar gael drwy hunangyfeirio uniongyrchol neu fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf, ac i weithredu fel Uwch-ymarferwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad prydlon at y gweithiwr proffesiynol cywir ac yn lleihau'r galw ar feddygon teulu. Bydd AHPs Uwch-ymarfer Clinigol sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol neu gymunedol yn newid y llif traddodiadol o lwybrau gofal sylfaenol i ofal eilaidd a lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae gallu AHPs i fynd i'r afael ag anghenion corfforol, seicolegol neu gymdeithasol yn ddelfrydol ar gyfer gwaith cymhleth ymarfer cyffredinol, gan alluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd â phosibl.

Bydd ymarfer hyblyg, ymatebol a chydweithredol sy'n ymateb i anghenion pobl drwy gydol bywyd ac sy'n croesi ffiniau proffesiynol a sefydliadol traddodiadol yn gwella profiadau a chanlyniadau dinasyddion. Bydd buddsoddi mewn cyfleusterau adsefydlu a gwella iechyd meddwl digonol mewn ysbytai ac yn y gymuned, ac mewn gofal canolraddol ac ail-alluogi, yn parhau'n hanfodol er mwyn cynnal llif ysbytai a lleihau hyd arhosiad. Mae adsefydlu, adfer ac ail-alluogi integredig o ansawdd uchel yn sicrhau y gall dinasyddion ddychwelyd adref o'r ysbyty heb ddibynnu'n ddiangen ar wasanaethau hirdymor a lleihau'r risg y cânt eu derbyn yn amhriodol i ofal sefydliadol hirdymor.

Yn rhy aml, mae mentrau arloesol tymor byr yn y Proffesiynau Perthynol i Iechyd wedi'u sefydlu fel cynlluniau peilot heb fod cynlluniau ariannu cynaliadwy hirdymor ar waith. Mae hyn wedi cyfyngu ar y cyfle i ehangu a chefnogi mabwysiadu ehangach ledled Cymru pan brofir bod datblygiadau arloesol yn effeithiol. Mae dull seiliedig ar werth o ran arloesi mewn gwasanaethau sy'n cynnwys casglu data'n gadarn, gwerthuso'r dystiolaeth gywir yn drwyadl a mynd i'r afael ag amrywiadau amhriodol mewn gwasanaethau'n allweddol. Rhaid i AHPs a'r rhai sy'n arwain y gwasanaethau hyn sicrhau bod yr ymyriadau hynny sy'n cyflawni canlyniadau gwerth uchel yn cael eu nodi a'u mabwysiadu ledled Cymru.

3. Datblygu Hunaniaeth a Phresenoldeb ar y Cyd: AHPs yn gweithio ar frig eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol.

Mae gan AHPs gyfle i ddatblygu presenoldeb mwy cadarn ar y cyd a fydd yn eu galluogi i ffynnu a gwneud y gorau



o'u potensial drwy weithio wedi'i integreiddio'n dda, ond gan gadw a gwerthfawrogi cyfraniad amlwg gwybodaeth, sgiliau a gallu pob proffesiwn unigol. Mae hyrwyddo dealltwriaeth o sgiliau penodol proffesiynau unigol yn ogystal â sgiliau cyfunol y grŵp AHP yn sicrhau y bydd y gweithlu cyfan yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r rhwystrau a'r bylchau sy'n llesteirio canlyniadau effeithiol a lleihau ansawdd profiad i ddinasyddion. Bydd hyn yn annog ffyrdd arloesol o weithio gyda gweithlu sy'n gallu addasu i newid cyflym, ffurfio cynghreiriau, a herio'r modelau sefydledig o weithio i hyrwyddo datblygu a darparu gwasanaethau sy'n torri tir newydd er budd dinasyddion Cymru.

Bydd yn rhaid i'r gweithlu AHP a'u harweinwyr sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei sefydlu i greu profiad effeithiol, integredig a di-dor i ddinasyddion ynghyd â'r defnydd gorau posibl o arbenigedd pob proffesiwn. Dim ond drwy ddefnyddio proffesiynau unigol yn gywir y bydd y canlyniadau gorau, gwerth, ansawdd a diogelwch yn cael eu sicrhau, gan sicrhau bod staff medrus yn gweithio ar frig eu gallu i wneud cyfraniadau penodol effeithiol fel aelodau o dîm aml-broffesiynol.

Mae'n hanfodol creu arweinyddiaeth AHP gref, weladwy a thrawsnewidiol ar bob lefel o'r system er mwyn llywio a dylanwadu ar gyfeiriad strategol a gwleidyddol, sicrhau newid a meithrin rhagoriaeth yng ngweithlu'r dyfodol drwy gadw, meithrin a datblygu doniau. Bydd AHPs yn gweithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i sicrhau bod AHPs yn cael y cymorth cywir ar gyfer datblygiad clinigol, proffesiynol, rhyngbersonol, arweinyddiaeth ac ymchwil.

Bydd y gweithlu'n effeithiol iawn, gan roi arferion gorau ar waith a dangos tystiolaeth ohonynt, mabwysiadu technoleg ddigidol a herio'u hunain yn barhaus i wella.

Yng Nghymru, mae Proffesiynau Perthynol i lechyd a reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau lechyd a Gofal (HCPC) dan arweinyddiaeth broffesiynol y Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i lechyd. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau lechyd (DoTHS) yn gyfrifol am oruchwylio, llywodraethu ac arweinyddiaeth broffesiynol staff sydd wedi'u cofrestru gyda HCPC a staff cymorth sydd heb eu cofrestru ym mhob Bwrdd lechyd yng Nghymru.

Mae systemau llywodraethu gwahanol yn gymwys yn ymddiriedolaethau'r GIG, gofal sylfaenol, lleoliadau/clystyrau cymunedol, awdurdodau lleol (gofal cymdeithasol, tai ac addysg), ysgolion a chyflogwyr eraill. Mae arweinyddiaeth a llywodraethu proffesiynol cryf ym mhob sefydliad yn hanfodol er mwyn sicrhau ymarfer proffesiynol, diogel o ansawdd uchel. Yn ogystal, mae goruchwyliaeth broffesiynol, hunanfyfrio a chydymffurfio â chodau rheoleiddio a chyrrff proffesiynol yn darparu mecanweithiau diogelwch hanfodol pellach i ddinasyddion ac mae angen eu croesawu a'u cefnogi gan gyflogwyr drwy'r system gyfan.




Adran 4 | Fframwaith AHP i Gymru

Mae Cymru Iachach (2018) yn defnyddio'r Nod Pedwarplyg a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y dylai'r system iechyd a gofal cymdeithasol drawsnewid. Mae'r fframwaith hwn yn defnyddio'r nod pedwarplyg hefyd fel cysyniad trefnu i ddisgrifio'r newidiadau sydd eu hangen yn seiliedig ar y chwe egwyddor graidd (gweler Ffigur 2 trosodd).

Mae cynllun gweithredu'r fframwaith yn Atodiad 1 yn fan cychwyn ar gyfer y canlyniadau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i lywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau. Caiff ei ddatblygu ymhellach gan randdeiliaid fel proses ailadroddol a pharhaus fel ei bod yn parhau i adlewyrchu'r dirwedd gyfnewidiol o ran rolau AHP o fewn iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt.

Ffig 2 | AHPs yn Gweithio mewn Partneriaeth â Dinasyddion



1. Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth

- Gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles dinasyddion trwy weithredu'n gynnar, ymyriadau ar y cyd, gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Lleihau effaith afiechyd a phenderfyniadau cymdeithasol eraill i gynyddu llesiant y boblogaeth i'r eithaf
- Defnyddio sgiliau AHP i wella gallu dinasyddion o ran hunanofal
- Canolbwyntio ar atal afiechydon y gallir eu hosgoi, mynd i'r afael ag achosion cyflyrau tymor hir a hybu iechyd y cyhoedd



2. Gwella ansawdd AHPs a mynediad atynt

- Sicrhau gwasanaethau o'r ansawdd uchaf, sy'n ddiogel ac atebol
- Darparu mynediad uniongyrchol, prydlon i AHPs sy'n gweithio mor gynnar ac ataliol â phosibl o fewn cymunedau a gwasanaethau integredig
- Hyrwyddo defnydd o Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth i leihau amrywiadau a risg o niwed; dwyn eu hunain i gyfrif i wella ansawdd a chanlyniadau i ddinasyddion
- Cynhyrchu a defnyddio mwy o ddata ymchwil, profiadau cleifion a gwybodaeth i lywio canlyniadau gwell



AHPs mewn partneriaeth â dinasyddion

3. Sicrhau gwerth uwch gan AHPs drwy drawsnewid

- Defnyddio'r gweithlu AHP lle maent yn cael yr effaith fwyaf
- Gweithredu fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf lle mae hyn fwyaf priodol
- Darparu adsefydlu, adferiad ac ail-alluogi i sicrhau gofal yn agosach at adref a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau tymor hir
- Hyrwyddo gofal a thriniaeth wedi'i phersonoli mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a'r trydydd sector



4. Ysbrydoli gweithlu AHP Bywiog

- Hyrwyddo gweithlu cynaliadwy, brwdfrydig a llawn cymhelliant sy'n cyd-fynd â modelau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Hwyluso dilyniant gyrfa a hyrwyddo llwybrau gyrfa cryf y gallir eu hadnabod sy'n amlwg i bawb
- Gwneud y gorau o gyfleoedd i arwain a dylanwadu ar weithgareddau ar bob lefel i lywio'r broses o drawsnewid gwasanaethau
- Hunaniaeth gref a chredadwy a rennir fel AHPs sydd â llais cyfunol



Bywydau


Hapusach

Hirach

1. Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth. Mae AHPs yn cydweithio â dinasyddion, cydweithwyr a chymunedau ar lefel leol a chenedlaethol i wella canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth

Mae'r AHPs yn cyflawni canlyniadau cryf gyda chasgliad unigryw o ymyriadau bio/seico/cymdeithasol sy'n gallu atal derbyniadau diangen i'r ysbty, lleihau hyd arhosiad a hwyluso rhyddhau diogel a chynaliadwy. Wrth wneud hynny, maent yn sicrhau gwell canlyniadau iechyd i'r boblogaeth ac yn cefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i thrawsnewid. Mae ymarferwyr arbenigol â sgiliau ychwanegol fel presgripsiynu annibynnol, therapi chwistrellu, llawdriniaeth neu rolau fel clinigwyr cymeradwy ac ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy yn cynnig mwy o hyblygrwydd fyth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae gan AHPs hanes hir o rymuso dinasyddion i reoli eu gofal eu hunain drwy weithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal gyda dinasyddion lle bynnag y bo'n bosibl a rhoi llais a dewis i ddinasyddion a allai fel arall fod yn dderbynwyr gofal goddefol. Rhaid i AHPs fod yn feiddgar ac yn greadigol yn eu hymarfer er mwyn lleihau ymddygiad a phrosesau sy'n amharu ar allu dinasyddion i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

I wella canlyniadau iechyd y boblogaeth bydd angen mwy o ymyrraeth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae dull personol AHPs o weithio a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion yn eu galluogi i wella llythrennedd iechyd a chefnogi newid ymddygiad cynaliadwy tuag at ddewisiadau ffordd iach ac egnïol o fyw. Bydd AHPs yn gweithredu nodau Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd AHP y DU (2019) i gynyddu ymyriadau gan y boblogaeth



ac iechyd y cyhoedd sy'n gwella canlyniadau iechyd a lles, gan gynnwys mentrau fel Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. Mae AHPs eisoes yn brofiadol ac yn gyfforddus yn gweithio mewn timau aml-broffesiynol ac amlasiantaethol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Mae angen i AHPs gael eu sefydlu mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i wella canlyniadau iechyd dinasyddion. Nodir bod eu sgiliau'n hanfodol yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru a bod angen eu sefydlu'n llawn yn chwe ffrwd waith y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol.

Yn olaf, mae'r gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn darparu ymyriadau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer hanfodol sy'n galluogi dinasyddion i ddychwelyd i'r lefel uchaf o annibyniaeth ar ôl anaf neu waeledd corfforol neu feddyliol anochel. Mae gwasanaethau gofal canolraddol, gydag adsefydlu ac adfer yn ganolog iddynt, yn hanfodol os ydym am gyflawni'r nod o sicrhau bod dinasyddion yn byw bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae ail-alluogi a therapi i bobl â chyflyrau hirdymor yn eu galluogi i gadw eu galluedd yn hirach, gan eu galluogi i barhau i fyw gartref, dychwelyd i'r gwaith neu ymgymryd â'r rolau a'r gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, bydd yr ymgynghorydd AHP a nodir yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia (2018)*⁹ yn darparu gwelliant strategol wrth alluogi pobl â dementia i fyw mor iach â phosibl cyhyd ag y bo modd.

Mae AHPs yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â dinasyddion i sicrhau'r canlyniadau gorau yn eu hiechyd a'u lles. Mae hyn yn cynnwys:


- Gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles dinasyddion drwy weithredu'n gynnar, ymyriadau wedi'u cyd-gynhyrchu, gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Lleihau effaith afiechyd a phenderfynyddion cymdeithasol eraill er mwyn cynyddu llesiant y boblogaeth i'r eithaf
- Defnyddio sgiliau AHPs i wella gallu dinasyddion i ofalu amdanynt eu hunain
- Canolbwyntio ar atal clefydau y gellir eu hosgoi, mynd i'r afael ag achosion cyflyrau hirdymor a hybu iechyd y cyhoedd

2. Gwella ansawdd AHPs a mynediad atynt. Mae AHPs yn gweithio i sicrhau hygyrchedd, ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Mae ansawdd, diogelwch, urddas a rheolaeth yn elfennau hollbwysig er mwyn i ddinasyddion gael profiad da o wasanaethau. Bydd modelau newydd o weithio hyblyg, sy'n sicrhau bod AHPs ar gael ac yn hygyrch ar yr adeg gywir, yn gwella canlyniadau a phrofiadau i ddinasyddion. Mae angen i gyfran fwy o wasanaethau fod ar gael 24/7 i ddarparu ymyriadau amserol, effeithiol ac o ansawdd uchel sy'n lleihau'r angen i drosglwyddo dinasyddion i wasanaethau gofal eilaidd neu gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae gan AHPs brofiad ac arbenigedd eisoes o weithio mewn ffordd ddi-dor, ryng-broffesiynol a rhyng-asiantaethol. Rhaid iddynt gydnabod a chyfleu eu gwerth cyfunol yn gliriach, gan hyrwyddo a rhannu datblygiadau arloesol yn eang drwy ledaenu arferion gorau, a gweithio ar y cyd gyda chydweithwyr a dinasyddion. Mae meincnodi ar gyfer y grŵp cyfunol o AHPs yn her pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu drwy fodelau gwahanol iawn ac nad ydynt yn gyson ar draws ardaloedd.

Fodd bynnag, bydd gweithredu modelau profedig yn eang ac yn gyflym ledled Cymru yn lleihau amrywiadau, yn sicrhau gwell ansawdd ac yn galluogi dinasyddion i lywio'u ffordd drwy'r system iechyd a gofal gymhleth. Mae angen i AHPs ddatblygu modelau gofal wedi'u diffinio'n dda a meincnodi eu hunain yn erbyn eraill er mwyn sbarduno gwell ansawdd a gwerth. Mae'n rhaid i uwch arweinwyr a rheolwyr weithredu'r modelau mwyaf cadarn i sefydlu AHPs mewn cyfleusterau ac amgylcheddau cymunedol megis gwasanaethau tai, addysg a chyflogaeth.



Mae angen cynlluniau swydd cytbwys ar AHPs er mwyn adlewyrchu pob un o'r pedwar piler dysgu yn "Moderneiddio Gyrfaoedd yn y Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru" (2016) a'r Fframwaith Ymarfer Uwch ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol yng Nghymru (2011)¹⁰. Bydd rolau meddygon ymgynghorol ac ymarfer clinigol uwch ar gyfer AHPs yn hyrwyddo ymgysylltu mwy cadarn â phob un o'r pedwar piler drwy'r pwyslais ar ymarfer ar sail tystiolaeth a gweithgarwch ymchwil ac addysg yn y gweithle, gan arwain at well ansawdd, diogelwch a mynediad at AHPs.

Mae AHPs yng Nghymru wedi ymrwmo i ddarparu'r profiad gorau i ddinasyddion sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau'r ansawdd, diogelwch ac atebolrwydd uchaf mewn gwasanaethau
- Darparu mynediad uniongyrchol ac amserol i AHPs sy'n gweithio mor gynnar ac ataliol â phosibl o fewn gwasanaethau cymunedol ac integredig
- Hyrwyddo'r defnydd o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau amrywiadau a risg o niwed: dwyn eu hunain i gyfrif er mwyn gwella ansawdd a chanlyniadau i ddinasyddion
- Manteisio ar y data ymchwil mwy helaeth sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio, ynghyd â phrofiadau cleifion a gwybodaeth i lywio canlyniadau gwell

3. Sicrhau gwerth uwch gan AHPs drwy drawsnewid. Mae dinasyddion yn cael cyngor, ymyriadau a gwasanaethau effeithiol yn seiliedig ar eu nodau a'u dymuniadau eu hunain wedi'u llywio gan ddata cadarn, tystiolaeth o ansawdd uchel ac ymarfer arbenigol.

Mae llawer o ymyriadau a rhyngweithiadau a ddefnyddir gan AHPs yn anodd eu mesur a dangos tystiolaeth ar eu cyfer gan ddefnyddio dulliau traddodiadol sy'n canolbwyntio ar brosesau neu allbynnau. Dylai AHPs gynyddu eu defnydd o fesurau canlyniadau gan gynnwys Mesurau Canlyniadau a Gofnodir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion

(PREMS) a dulliau gwella iechyd i werthuso effeithiolrwydd ac i fesur a mynegi Gofal sy'n Seiliedig ar Werth.

Mae'r trawsnewid mewn llawer o wasanaethau AHP wedi cael ei gyfyngu gan ddiffyg ymchwilwyr gweithredol, arweinyddiaeth gref



a chefnogaeth sefydliadol ar gyfer newid. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y boblogaeth, mae angen i ymyriadau AHPs sy'n cael eu cyfeirio gan bobl, sy'n galluogi ac sy'n canolbwyntio ar adferiad fod ar gael yn fwy eang ym maes iechyd y cyhoedd ac mewn gofal cymunedol a sylfaenol, yn ogystal ag mewn gofal eilaidd a lleoliadau gofal eraill. Mae angen datblygu modelau mynediad uniongyrchol, hunangyfeirio ac ymarferwyr cyswllt cyntaf er mwyn ateb y galw. Mae yna ddarpariaeth annigonol o ymyriadau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer, gofal canolraddol ac adsefydlu cymunedol er mwyn cynyddu gallu pobl i fyw mor iach â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl. Ar hyn o bryd, nid oes digon o'r gwasanaethau AHP hyn ar gael y tu allan i'r wythnos waith draddodiadol.

Rhaid i AHPs fod yn bartneriaid ac yn arweinwyr ym maes ymchwil ac arloesi, yn ogystal â defnyddio ymchwil yn gyson i ymestyn ymarfer y tu hwnt i ffyrdd sefydledig o weithio a rhoi'r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau ar waith. Bydd angen datblygu arweinyddiaeth ddynamig genedlaethol, leol a gweithredol ymhellach er mwyn sbarduno gwelliannau arloesol mewn systemau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Bydd AHPs yn dod yn bartneriaid mwy gweithgar gyda chlystyrau gofal sylfaenol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau'r dulliau seiliedig ar ganolbwyntio ar yr unigolyn, galluogi ac adfer sydd eu hangen er mwyn gwella canlyniadau i ddinasyddion ag anghenion iechyd a gofal cymhleth. Mae'n rhaid i AHPs fod yn hyderus i ddefnyddio sgiliau digidol i gyflawni'r hyn sydd ei angen, defnyddio technoleg yn greadigol i wella effeithiolrwydd a sicrhau cynaliadwyedd drwy ganolbwyntio ar leihau effeithiau amgylcheddol y gweithle.

Mae AHPs yng Nghymru wedi ymrwymo i ddarparu iechyd a gofal sy'n seiliedig ar werth i ddinasyddion, a sicrhau eu bod yn datblygu'n barhaus ac yn gweithio i frig eu trwydded broffesiynol bersonol. Mae hyn yn cynnwys:

- Defnyddio'r gweithlu AHP lle maent yn cael yr effaith fwyaf
- Gweithredu fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf lle mae hyn fwyaf priodol
- Darparu gwasanaethau adsefydlu, adfer ac ail-alluogi i sicrhau gofal yn agosach at adref a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau tymor hir
- Hyrwyddo gofal a thriniaeth bersonol mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a'r trydydd sector

4. Ysbrydoli gweithlu bywiog yn y proffesiynau perthynol i iechyd. Bydd dinasyddion yn cael eu trin gan weithlu hyderus a medrus sy'n gallu dylanwadu, arwain a sbarduno newid yn eu gwaith.

Gall yr heriau presennol o alw cynyddol, yr angen i gynyddu capasiti ac arbenigedd, y gweithluoedd AHP bregus neu fach a geir mewn rhai gwasanaethau neu grwpiau proffesiynol, ynghyd â'r anhawster o roi trawsnewid ar waith, i gyd roi pwysau ar y gweithlu. Mae tair adran flaenorol y fframwaith hwn wedi amlinellu rhai o'r rhwystrau sy'n lleihau effaith a gwerth AHPs. Maent yn effeithio ar les staff, eu hymroddiad a'u gallu i arloesi. Mae hybu lles y gweithlu'n gonglfaen i sicrhau gweithlu AHP bywiog. Mae angen i AHPs ar bob lefel fod yn gyffyrddus ar flaen y gad o ran arloesi, yn ymwybodol o bolisiâu a deddfwriaeth ac yn ymgysylltu â hwy er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer a dileu arferion hen ffasiwn. Mae angen i gyfleoedd datblygu gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n datblygu sgiliau mewn arweinyddiaeth, ymarfer clinigol, cymorth wrth ymarfer, goruchwyliaeth ac ymarfer myfyriol fod ar gael yn gyfartal i'r gweithlu cyfan. Maent yn cyfrannu at ymdeimlad o werth a boddhad mewn swydd sydd mor hanfodol i sicrhau gweithlu brwdfrydig.

Nid yw arweinyddiaeth drawsnewidiol a thosturiol yn rôl a neilltuir i'r rhai mewn swyddi rheoli neu uwch yn unig; mae'n ymddygiad sy'n ofynnol gan bob aelod o'r gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i lechyd. Mae gan swyddogion gweithredol ac arweinwyr uwch rôl allweddol wrth arwain newid strategol. Mae datblygu arweinyddiaeth a llwybr i nodi a datblygu doniau mewn rolau clinigol, proffesiynol, rheoli, addysgol, ymchwil a chorfforaethol yn hanfodol. Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn bartneriaid allweddol wrth helpu'r gweithlu AHP i drawsnewid. Mae'n hanfodol parhau i gryfhau'r berthynas bresennol gyda sefydliadau addysg uwch wrth addysgu aelodau newydd a phresennol o'r gweithlu, yn ogystal â chefnogi'r ymchwil a'r arloesedd sydd eu hangen i sbarduno gwelliant mewn canlyniadau.

Mae llawer llai o rolau AHP ym meysydd ymchwil academiaidd, ymgynghorwyr ac ymarfer clinigol uwch o'u cymharu â grwpiau proffesiynol eraill yng Nghymru. Mae'r rolau hyn yn bwysig o ran ymestyn a gwella ymarfer sy'n benodol i'r proffesiwn er mwyn gwella canlyniadau iechyd yn hytrach na llenwi bwlch ar ran proffesiynau eraill. Mae angen mwy o gyfleoedd a chymorth i weithwyr proffesiynol ym mhob cam o'u gyrfa ymgymryd ag ymchwil weithredol a sefydlu tystiolaeth gadarn mewn ymarfer bob dydd a'r gwaith o wella gwasanaethau.

Mae gan AHPs hanes hir o weithio'n effeithiol gyda staff cymorth heb eu cofrestru sydd â lefelau uchel o gyfrifoldeb. Yn aml nid yw'r cyfraniad a wneir gan y cydweithwyr hanfodol hyn yn cael ei gydnabod na'i werthfawrogi. Dylai cyfleoedd datblygu a chymwysterau i'r staff hyn ddilyn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol fod ar gael yn yr un modd ag ar gyfer staff cofrestredig. Mae gan rai o'r Proffesiynau Perthynol i lechyd gymwysterau ar gael eisoes

i staff cymorth sydd heb eu cofrestru i'w galluogi i gyflawni cofrestriad proffesiynol os dymunant. Bydd angen i AHPs weithio gydag AaGIC a GCC i sicrhau bod hyn yn cael ei ehangu i bawb, gan greu'r dull aml-broffesiynol a hyblyg o weithio a fydd fwyaf buddiol i iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd datblygu gweithwyr adsefydlu aml-broffesiynol yn cynnig cyfleoedd newydd i sicrhau'r adferiad gorau bosibl a gallu dinasyddion i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach.

Bydd trawsnewid sut a lle mae AHPs yn gweithio a chael y gwerth mwyaf o'u hadnoddau'n ysgogi ac yn grymuso'r gweithlu i gyflawni ei botensial llawn. Dylai AHPs yng Nghymru gynyddu gwelliannau presennol i wasanaethau er mwyn sicrhau bod newidiadau systemig yn eu galluogi i weithio mor effeithiol â phosibl, gan gadw'r gorau o ymarfer presennol lle maent eisoes yn gweithio mewn ffordd ddarvoudus sy'n seiliedig ar werth.

Mae AHPs yng Nghymru yn ymroddedig i ddatblygu a meithrin gweithlu Proffesiynau Perthynol i lechyd fel arweinwyr, ymarferwyr clinigol uwch medrus ac arbenigol, ymchwilwyr ac addysgwyr er mwyn chwyldroi ymarfer pob AHP cofrestredig neu sydd heb eu cofrestru. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo gweithlu cynaliadwy, llawn cymhelliant a brwdfrydig sy'n cyd-fynd â modelau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Hwyluso dilyniant gyrfa a hyrwyddo llwybrau gyrfa cryf a chliir sy'n amlwg i bawb
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu â gweithgareddau arwain a dylanwadu ar bob lefel er mwyn llywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau
- Meddu ar hunaniaeth gref a chredadwy a rennir fel AHPs sydd â llais cyfunol





Adran 5 | Atodiad 1: Cynllun Gweithredu'r Fframwaith

Er mwyn datblygu'r fframwaith hwn drwy raglen waith, llywodraethu da a chydweithio, bydd rhwydwaith AHP yn cael ei ffurfio i weithio ar y cyd â Phwyllgor Cynghorol Therapiau Cymru a'r swyddi cenedlaethol a nodir yn y cynllun gweithredu isod. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd (DoTHS) yn elfen allweddol o ran rhoi arweiniad i AHPs o fewn GIG Cymru a byddant yn rhoi trosolwg o'r rhaglen. Fodd bynnag, mae AHPs yn gweithio ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol gan alluogi gofal di-dor i'r rhai mewn angen, a bydd angen fframwaith

llywodraethu clir sy'n pontio ffiniau sefydliadol i hwyluso gweithio ar draws y system yng nghanau gweithredu'r rhwydwaith a gwaith cyflawni'r rhaglen. Bydd y rhwydwaith yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Rhaglenni Cenedlaethol GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, cyrff proffesiynol, cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y sector addysg (uwch, pellach, uwchradd a chynradd) a'r cyhoedd i oruchwylio'r gwaith o ddarparu, gweithredu a gwerthuso cynllun gweithredu'r fframwaith AHP.

1. Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth

Mae AHPs yn cydweithio â dinasyddion, cydweithwyr a chymunedau ar lefel leol a chenedlaethol i wella canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth

Ymrwymadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
Gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles dinasyddion drwy weithredu'n gynnar, ymyriadau wedi'u cyd-gynhyrchu, gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/hunan-reoli	Rhwydwaith AHP	Bydd AHPs yn gweithio i frig eu set sgiliau ac yn defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda dinasyddion i wella eu canlyniadau iechyd.	B-H	Dinasyddion yn byw bywydau hirach, iachach a hapusach mor annibynnol â phosibl
	Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd (DoTHS)	Creu cymrodoriaeth/secondiad i arwain prosiect achos seiliedig ar werth ar gyfer sicrhau ymyriadau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer.	B	
	Pwyllgor Cynghorol Therapiau Cymru (WTAC)	Bydd gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn darparu cymaint â phosibl o dechnoleg gynorthwyol, ymyriadau digidol ac ymyriadau technolegol eraill i alluogi dinasyddion i fyw'n fwy annibynnol a rheoli eu gofal eu hunain.	B-H	

Ymrwymadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
<p>Lleihau effaith afiechyd a phenderfynyddion cymdeithasol eraill er mwyn gwella llesiant y boblogaeth i'r eithaf</p> <p>Defnyddio sgiliau AHPs i wella gallu dinasyddion i ofalu amdanynt eu hunain</p> <p>Canolbwyntio ar atal clefydau y gellir eu hosgoi, mynd i'r afael ag achosion cyflyrau cronig a hybu iechyd y cyhoedd</p>	Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)	Bydd DoTHS yn cymryd rhan yn y Rhaglenni Cenedlaethol (Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Gofal wedi'i Gynllunio a Rhaglenni Gofal Heb ei Drefnu) er mwyn gwneud y gorau o effaith AHP ar ganlyniadau iechyd.	B-H	<p>Caiiff AHPs eu defnyddio i sicrhau'r gwelliant mwyaf mewn canlyniadau iechyd</p> <p>Mae AHPs yn sicrhau'r gwelliant mwyaf drwy hybu iechyd i bawb a chamau gweithredu seiliedig ar iechyd y cyhoedd</p>
	Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol	Creu AHP Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn nhim arwain y Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol.	B	
	Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol	Cynyddu mynediad dinasyddion at AHPs drwy wasanaethau hunangyfeirio neu fynediad uniongyrchol gan gynnwys mwy o Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf.	C-H	
	Timau cynllunio iechyd a gofal cymdeithasol	Bydd y gweithlu AHP ac arweinwyr gwasanaethau'n datblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau mewn cydweithrediad â dinasyddion er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cyfleoedd gorau i fyw mor iach â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl.	C-H	
		Bydd y gweithlu AHP ac arweinwyr gwasanaethau'n parhau i ehangu gwasanaethau ar gyfer cydweithwyr yn y gweithlu er mwyn gwella eu llesiant a'u galluogi i aros mewn gwaith a dychwelyd i'r gwaith.	B-C	
		Bydd y rhwydwaith AHP a'r WTAC yn hyrwyddo ac yn monitro'r ddarpariaeth Gymraeg wrth gomisiynu addysg a darparu gwasanaethau o fewn y gweithlu AHP er mwyn diwallu dymuniadau ac anghenion dinasyddion Cymraeg eu hiaith.	B-H	
		Bydd arweinydd cenedlaethol ar gyfer AHPs yn y blynyddoedd cynnar ac ym maes iechyd y cyhoedd/atal yn cael ei benodi.	B	
		Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer 'Fframwaith Strategol y DU ar gyfer AHPs ym maes lechyd y Cyhoedd' (2019).	B	
		Caiff y cynllun y cytunwyd arno i gyflawni'r nodau ar gyfer 'Fframwaith Strategol y DU ar gyfer AHPs ym maes lechyd y Cyhoedd' ei weithredu gan bob un o bersonél y Proffesiynau Perthynol i Iechyd.	C-H	
		WTAC		
	Rhwydwaith AHP			

2. Gwella ansawdd AHPs a mynediad atynt

Mae AHPs yn gweithio i sicrhau hygrychedd, ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Ymrwymadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
<p>Sicrhau'r ansawdd, diogelwch ac atebolrwydd uchaf mewn gwasanaethau</p> <p>Darparu mynediad uniongyrchol ac amserol i AHPs sy'n gweithio mor gynnar ac ataliol â phosibl o fewn gwasanaethau cymunedol ac integredig</p> <p>Hyrwyddo'r defnydd o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau amrywiadau a risg o niwed; dwyn eu hunain i gyfrif er mwyn gwella ansawdd a chanlyniadau i ddinasyddion</p>	DoTHS	Bydd AHPs yn ymgysylltu'n gyson ag adroddiadau a gweithgareddau archwilio a meincnodi cenedlaethol a'u hyrwyddo.	B	Mwy o dystiolaeth o ymarfer AHP o ansawdd uchel a gwelliant mewn gwasanaethau
	Arweinwyr AHP	Bydd y rhwydwaith AHP yn gweithredu fel fforwm i nodi arferion gorau o archwiliadau a gweithgareddau eraill. Caiff hyn ei adrodd i'r DoTHS a rhanddeiliaid eraill i gefnogi ansawdd gwell mewn gwasanaethau AHP.	B-C	
	Llywodraeth Cymru	Bydd y rhwydwaith AHP yn nodi hyrwyddwyr gwella gwasanaethau i hyrwyddo mentrau megis ymyrraeth gynnar ar gyfer dinasyddion a fydd yn sicrhau mynediad amserol i wasanaethau AHP.	B	
	Byrddau Iechyd	Bydd y rhwydwaith AHP yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiadau yn y ddarpariaeth Gymraeg o fewn gwasanaethau a ddarperir gan y gweithlu AHP er mwyn diwallu anghenion lleol dinasyddion Cymraeg eu hiaith.	C-H	
	Llywodraeth Leol	Bydd AHPs yn gweithio'n strategol gyda darparwyr addysg a gwybodeg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi AHPs i ddefnyddio data at ddibenion gwella gwasanaethau a hwyluso canlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	C	Mwy o hyder i'r cyhoedd ac i gyflogwyr mewn AHPs a reoleiddir
	AaGIC	Bydd strategaeth gweithlu AaGIC/GCC yn creu cyfle ar gyfer addysg a hyfforddiant gwybodeg iechyd i AHPs.	C	
	Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)	Bydd y Rhwydwaith AHP yn gyfrifol am fentrau arweinyddiaeth cenedlaethol ac yn meithrin llais ar gyfer newidiadau deddfwriaethol nad ydynt wedi'u datganoli (megis Rheoliadau Bwyd, rheoliadau dyfeisiau meddygol, rhagnodi annibynnol).	B-C	

Ymrwymadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
Manteisio ar y data ymchwil mwy helaeth sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio, ynghyd â phrofiadau cleifion a gwybodaeth i lywio canlyniadau gwell	Rhwydwaith AHP a WTAC	Bydd AHPs yn cydweithio ar lefel y DU a Chymru i ddylanwadu, llywio a gweithredu dealltwriaeth o ofynion rheoleiddio a chofrestru proffesiynol.	B	Bydd Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a chynlluniau clwstwr yn sefydlu ymchwil AHP a gofal sy'n seiliedig ar werth
	Ymgysylltu â chyrrff proffesiynol y DU	Bydd y Rhwydwaith AHP yn cysylltu ag is-bwyllgorau perthnasol neu Grwpiau Cyngori Arbenigol (GCAau) i sicrhau bod cynlluniau lefel uchel cydgysylltiedig yn cael eu datblygu sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau AHP.	B	
	Arweinwyr AHP	Bydd DoTHS yn cefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi data'n systematig a'i ddefnyddio i lywio penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth	B-C	
	Llywodraeth Cymru	Defnyddir dystiolaeth a data/canllawiau cenedlaethol yn gyson i lywio newidiadau i wasanaethau, lleihau amrywiadau diangen a mentrau gwella gwasanaethau	C	
	AaGIC/GCC	Bydd y Rhwydwaith AHP yn arwain gweithdai amlddisgyblaethol i randdeiliaid ar y defnydd o dystiolaeth a data wrth ailgynllunio gwasanaethau.	B	
	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)	Bydd y Rhwydwaith AHP yn datblygu cyfres o fesurau i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar gyfleoedd datblygu addysg a dysgu ar bob lefel, cyfranogiad AHPs mewn rhaglenni ymchwil ac effaith ymchwil ac arloesi.	C	
	GIG Cymru	Bydd y gweithlu AHP ac arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Ymchwil a Datblygu a YIGC i ddatblygu strategaeth ymchwil ac arloesi (YacA) ar gyfer AHPs.	C	
	Rhwydwaith AHP	Bydd y strategaeth YacA yn cynnwys datblygu a hyrwyddo rôl swyddi academiaidd, cynghorol ac ymchwil clinigol ar gyfer AHPs.	C	
	DoTHS	Bydd y Rhwydwaith AHP yn datblygu ac yn darparu cynllun mentora a datblygu ymchwil ar gyfer AHPs drwy gydol eu gyrfaedd ac yn rhoi cymorth i bobl broffesiynol eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal.	C	
	AaGIC/GCC	Bydd DoTHS yn gweithio gydag AaGIC/GCC ac yn mynd i'r afael â phwysigrwydd cynllunio swyddi. Archwilio cytundeb ar gynlluniau swyddi ar gyfer AHPs yng Nghymru.	B	
Prifysgolion	Bydd nifer yr AHPs sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu, cynrychiolaeth genedlaethol ac addysgu'n cynyddu.	C		
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (YIGC)				
Cyngor Ymchwil AHP (CAHPR)				

3. Sicrhau gwerth uwch gan AHPs drwy drawsnewid

Mae dinasyddion yn cael cyngor, ymyriadau a gwasanaethau effeithiol yn seiliedig ar eu nodau a'u dymuniadau eu hunain wedi'u llywio gan ddata cadarn, tystiolaeth o ansawdd uchel ac ymarfer arbenigol.

Ymrwymadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
Defnyddio'r gweithlu AHP lle maent yn cael yr effaith fwyaf	Rhwydwaith AHP	Bydd y Rhwydwaith AHP yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol i sicrhau y caiff AHPs eu defnyddio ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal er mwyn sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf posibl.	B-C	Dulliau darbodus sy'n seiliedig ar werth wedi'u sefydlu ym mhob cynllun trawsnewid gwasanaeth AHP
Gweithredu fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf lle mae hyn fwyaf priodol	WTAC DoTHS	Bydd y Rhwydwaith AHP yn gweithio gyda'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal ar Sail Gwerth er mwyn ymgorffori ymyriadau AHP sy'n ddarbodus ac yn seiliedig ar werth ym mhob cynllun darparu gwasanaethau.	B-C	Cyflogwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn deall gwerth a chyfraniadau Proffesiynau Perthynol i lechyd fel proffesiynau unigol yn ogystal â fel gweithlu cyfunol
Darparu gwasanaethau adsefydlu, adfer ac ail-alluogi i sicrhau gofal yn agosach at adref a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau tymor hir	Llywodraeth Cymru Arweinydd Gofal Sylfaenol AHP	Bydd DoTHS yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol ac awdurdodau lleol, drwy glystyrau gofal sylfaenol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i wneud y gorau o gyfraniad AHPs er mwyn galluogi pob dinesydd i wella eu canlyniadau, gan gynnwys gwneud y gorau o rôl Uwch Ymarferwyr, Ymarferwyr Cyngorol a Chyswllt Cyntaf.	C	Gweithlu AHP yn cymryd rhan yn agenda trawsnewid y Strategaeth Ddigidol
Hyrwyddo gofal a thriniaeth bersonol mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a'r trydydd sector	WTAC Cyrrff proffesiynol Prifysgolion Cyflogwyr	Bydd cyfran y gweithlu AHP mewn gwasanaethau ataliol/ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cyffredinol (e.e. dechrau'n deg, y blynyddoedd cynnar, cyflyrau hirdymor, rheoli pwysau, lles meddyliol) yn cael ei hehangu ledled Cymru.	C	Bydd AHPs yn arwain gwasanaethau arloesol wedi'u trawsnewid
	WTAC	Bydd y Rhwydwaith AHP a'r WTAC yn chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwerth penodol proffesiynau AHP unigol yn ogystal â'r gweithlu cyfunol mewn ffyrdd sy'n helpu dinasyddion i gyrraedd y gweithiwr proffesiynol cywir a hyrwyddo gwerth ychwanegol gweithio aml-broffesiynol.	B-C	
		Bydd y Rhwydwaith AHP yn gweithio gyda chyrrff proffesiynol i dynnu sylw at rolau AHPs yng Nghymru ac i rannu gwybodaeth, llwyddiannau a gwybodaeth allweddol am effaith a gwerth Proffesiynau Perthynol i lechyd drwy wefan newydd Proffesiynau Perthynol i lechyd ar gyfer Cymru (AHP1).	B	
		Bydd y rhwydwaith AHP a DoTHS yn sicrhau bod gwasanaethau adsefydlu, adfer ac ailalluogi, gan gynnwys rhai sy'n rhan o wasanaethau gofal canolraddol, ar gael mor agos â phosibl i'r cartref, gan leihau dibyniaeth ddiangen ar wasanaethau tymor hir.	B-C	

Ymrwymiadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
	Llywodraeth Cymru	Bydd y Rhwydwaith AHP yn cyfrannu at drafodaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer trawsnewid digidol; gan gynnwys anghenion gwasanaethau a manylebau systemau, hyfforddiant a gweithredu.	B	
	Llywodraeth Leol			
	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu yn y Datganiad o Fwriad Digidol, e.e. drwy werthuso anghenion hyfforddi gwybodeg ar gyfer AHPs.	C	
	Cyrff proffesiynol	Bydd y gweithlu AHP yn cydweithio â YIGC a CAHPR, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, AaGIC a GCC i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i wneud gwaith ymchwil a chynlluniau swyddi sy'n cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi.	C	
	WTAC			
	Rhwydwaith AHP	Bydd y gweithlu AHP yn ymgysylltu ag esiamplau Bevan a chymrodyr o ran gwella gwasanaethau; cynyddu nifer yr AHPs sy'n gysylltiedig â rhaglen enghreifftiol technoleg Bevan.	B-C	
	CAHPR			
	Prifysgolion	Bydd y Rhwydwaith AHP a'r gweithlu AHP yn gweithio gydag AaGIC i ddatblygu fframweithiau ymarfer clinigol a meddygon ymgynghorol uwch newydd.	B-C	
	Comisiwn Bevan			
	Cyngor y Deoniaid	Bydd cynnydd yn nifer y swyddi AHP cynghorol ac uwch-bractis clinigol.	C-H	
	Gwella Cymru			

4. Ysbrydoli gweithlu bywiog yn y proffesiynau perthynol i iechyd

Bydd dinasyddion yn cael eu trin gan weithlu hyderus a medrus sy'n gallu dylanwadu, arwain a sbarduno newid yn eu gwaith

Ymrwymiadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
Hyrwyddo gweithlu cynaliadwy, llawn cymhelliant a brwdfrydig sy'n cyd-fynd â modelau newydd o ddarparu gwasanaethau	Rhwydwaith AHP	Bydd Cynllun Gweithredu'r Gweithlu'n cael ei ddatblygu gan y Rhwydwaith AHP/WTAC sy'n cyd-fynd â Chymru Iachach a Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal.	C	Gweithlu cytbwys sefydlog, mwy o gynllunio cydgysylltiedig yn ôl demograffeg y gweithlu
	AaGIC/GCC	Bydd y Rhwydwaith AHP yn datblygu gwefan ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru (AHP1) a fydd yn dwyn gwybodaeth ynghyd ar gyfer datblygu'r gweithlu yng Nghymru, ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer AHPs a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw. Bydd yn cael ei integreiddio neu ei gysylltu â gwefannau allweddol eraill megis Gofal Sylfaenol Un a'r Royal Society for Public Health.	B-C	
Hwyluso dilyniant gyrfa a hyrwyddo llwybrau gyrfa cryf a chilir sy'n amlwg i bawb	Rhwydwaith AHP	Bydd DoTHS, WTAC ac arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau AHP yn gweithio gydag AaGIC i fonitro a deall y materion sy'n wynebu proffesiynau AHP a'u staff cymorth mewn perthynas ag addysg cyn ac ar ôl cofrestru, datblygu gyrfa ac arweinyddiaeth, comisiynu addysg gynaliadwy a llwybrau addysg.	B-C	Bydd rhaglenni addysg a hyfforddiant yn adlewyrchu anghenion lefel gwasanaeth yn y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i thrawsnewid yng Nghymru
	AaGIC/GCC	Bydd swydd gweithlu AHP yn cael ei chreu i weithio gydag AaGIC i gefnogi comisiynu effeithiol; datblygu gweithwyr cymorth ac ôl-gofrestru.	B	
Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu â gweithgareddau arwain a dylanwadu ar bob lefel er mwyn llywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau	Llywodraeth Cymru	Bydd WTAC yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ac AaGIC/GCC i ddatblygu fframwaith addysgol cryf a chadarn ar gyfer AHPs yng Nghymru, gan gynnwys: prentisiaethau, mynediad ôl-raddedig, cydnabod dysgu blaenorol i gefnogi mynediad hyblyg i'r proffesiynau, datblygiad gyrfa, cadw staff a dychwelyd i'r gwaith.	C	Ehangu llwybrau mynediad i'r proffesiynau AHP e.e. dulliau hyblyg o ddysgu) a gwell llwybrau dilyniant gyrfa
	Prifysgolion	Bydd y Rhwydwaith AHP yn hyrwyddo ehangu mynediad i lwybrau addysg a hyfforddiant i AHP a chyfleoedd datblygu gyrfa i bawb.	C	
Meddu ar hunaniaeth gref a chredadwy a rennir fel AHPs sydd â llais cyfunol	Cyngor y Deoniaid	Bydd y Rhwydwaith AHP yn cwmpasu cyfleoedd presennol ar gyfer cymrodoriaethau teithio ac yn penderfynu ar yr angen i ddatblygu rhaglen cymrodoriaeth deithio AHP.	B-C	Mwy o geisiadau i ymuno â'r gweithlu AHP (staff cofrestredig a chymorth)
	AaGIC/GCC	Bydd arweinwyr AHP a'r Rhwydwaith AHP yn annog mwy i fanteisio ar gymrodoriaethau teithio	C-H	
	WODS			
	Addysg Bellach ac Uwch			
	Rhwydwaith AHP			
	Cyngor y Deoniaid			
	Llywodraeth Cymru			

Ymrwymiadau	Partneriaid allweddol	Camau gweithredu sydd eu hangen:	Amserlen	Canlyniadau
	AaGIC a GCC Prifysgolion	Bydd y gweithlu AHP yn manteisio ar bob cyfle i arddangos a darparu enghreifftiau cyd-destunol o lwybrau gyrfa i'r cyhoedd, ac AHPs y presennol a'r dyfodol ar draws y system iechyd a gofal, drwy gyhoeddi, gwobrau a mynychu cynadleddau.	B	Caiff AHPs eu hintegreiddio i raglenni hyfforddiant ac addysg aml-broffesiynol (megis datblygu arweinyddiaeth) gyda chydweithwyr yn y gweithlu ehangach Cynorthwyr AHPs i geisio cyrraedd eu llawn botensial a'i gyflawni gydol eu gyrfa
		Bydd y rhwydwaith AHP yn gweithio gydag AaGIC/GCC i ddarparu astudiaethau achos ar gyfer gyrfaedd AHP i'w cyhoeddi ar AHP1 ac yn neunyddiau gyrfa AaGIC/GCC er mwyn sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr ddealltwriaeth glir o rôl a chwmpas llwybrau addysgol a gyrfa AHP.	B	
	AaGIC a GCC	Bydd WTAC yn cydweithio â phartneriaid i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu rhaglenni aml-broffesiynol ym maes arweinyddiaeth, gofal iechyd, gwybodeg ac ati.	B	Lleihau'r bylchau yn y gweithlu AHP Cynnydd mewn atebion rhanbarthol ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau, gan gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg
		Bydd y gweithlu AHP yn hyrwyddo manteision cyd-gynhyrchu gweithredol a dulliau aml-broffesiynol wrth gynllunio, gweithredu, gwerthuso ac yna datblygu modelau addysg newydd yn dilyn hynny.	B-H	
		Bydd y gweithlu AHP a darparwyr addysg uwch yn sicrhau cyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer sy'n modelu ffyrdd newydd o weithio a sgiliau drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i thrawsnewid.	C	
	AaGIC/GCC DoTHS Rhwydwaith AHP	Datblygir fframwaith mentora cenedlaethol ar gyfer AHPs mewn partneriaeth rhwng WTAC ac AaGIC/GCC i hyrwyddo diwylliant lle mae uwch AHPs yn gyfrifol am fentora a chefnogi cydweithwyr iau ac unrhyw weithwyr proffesiynol iechyd a gofal ar eu taith yrfaol.	B-C	Cynyddu nifer yr uwch AHPs a'r AHPs mewn swyddi arweinyddiaeth
		Bydd y rhwydwaith AHP yn hyrwyddo ymgysylltu â gwobrau, anrhydeddau, cyhoeddiadau a'r cyfryngau i hyrwyddo arferion da a llwyddiannau AHPs.	B	
	Rhwydwaith AHP AaGIC a GCC	Bydd Rhwydwaith AHP/WTAC yn gweithredu fel canolbwynt a fforwm i AHP gwybodaeth am gynaliadwyedd AHPs ar lefelau staffio AHPs ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, gofal cymdeithasol a chyflogwyr eraill sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.	C	Gwell ffigurau recriwtio, cadw a chynnydd. Mwy o fynediad a symudedd ar gyfer AHPs
		Bydd y Rhwydwaith AHP a'r WTAC yn cyflwyno adroddiadau ar arferion a chynigion darbodus sy'n seiliedig ar werth ac a gyflwynir i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru neu raglenni eraill.	C	

Commitments	Key partners	Actions needed:	Timeframe	Outcomes
		Bydd arweinwyr a rheolwyr AHP yn cynorthwyo'r gweithlu AHP i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg yn y gweithle, ac yn hyrwyddo hynny.	B-C	
		Bydd AaGIC yn monitro ac yn darparu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn comisiynu addysg a gwasanaethau o fewn y gweithlu AHP.	B-C	
	Swyddogion Gweithredol ac Uwch arweinwyr mewn sefydliadau cyflogi	Bydd DoTHS a WTAC yn monitro nifer yr uwch AHPs yn y system, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi recriwtio a buddsoddiadau yn y swyddi hyn.	B-H	
	AaGIC/GCC	Bydd y rhwydwaith AHP yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i AHPs ar raglenni, mentora a chyfleoedd datblygu arweinyddiaeth, a'r nifer sy'n manteisio arnynt.	B-H	
	Cyrff proffesiynol	Bydd WTAC/DoTHS yn gweithio gydag AaGIC/GCC i ddatblygu a gweithredu strategaeth y gweithlu lechyd a Gofal Cymdeithasol.	C-H	
	AaGIC/GCC	Bydd y rhwydwaith AHP yn llywio ac yn cefnogi datblygu'r gweithlu ar gyfer gweithlu Proffesiynau Perthynol i lechyd y presennol a'r dyfodol, gan adolygu meysydd lle gellir ehangu cwrdd ymarfer a galluogi trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau.	B-C	
		Bydd rheolwyr DoTHS ac AHP ar draws y system yn cryfhau'r defnydd o'r fframwaith gyrfa addysg a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu AHP i gynnwys addysg ôl-gofrestru, hyfforddiant a llwybrau gyrfaol clir i bawb o staff cymorth i gynghorwyr.	B	
		Bydd AaGIC/GCC a WTAC yn hwyluso cytuno ar gylch gwaith a chydabod rolau ymarfer clinigol uwch mewn AHP ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt.	B-C	
		Cynyddu nifer yr AHPs sy'n gweithio mewn practis clinigol uwch neu rolau cynghorol.	C-H	

Atodiad 2 | AHPs a reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yng Nghymru sy'n cael eu cynnwys yn y fframwaith AHP hwn

- Therapyddion celf
- Therapyddion cerdd
- Therapyddion drama
- Deietegwyr
- Therapyddion galwedigaethol
- Orthoptwyr
- Orthotyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Podiatryddion
- Seicolegwyr sy'n ymarferwyr
- Prosthetyddion
- Therapyddion iaith a lleferydd

Atodiad 3 | Methodoleg a sefydliadau sy'n ymwneud â chreu ac ymgynghori ar gyfer datblygu'r fframwaith

Datblygwyd y fframwaith yn dilyn cyd-gynhyrchu a chydweithio sylweddol gydag aelodau o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Rhanddeiliaid Ehangach yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu'r cyfraniadau hyn a'r dadansoddiad o ddeddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n llywio ymarfer AHP yng Nghymru. Rhoddodd diwrnod ymgynghori AHP ym mis Hydref 2018 gyfle i aelodau'r proffesiynau bennu cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer datblygiad cychwynnol y fframwaith. Dilynwyd hyn gan gyfres o gyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu ar y gwaith o greu'r fframwaith a'r cynllun gweithredu. Cynhaliwyd ymgynghoriad mwy ffurfiol ar y drafft terfynol drwy arolwg ar-lein dienw a gweithgarwch ymgynghori drwy e-bost gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid drwy gydol Mai a Mehefin 2019.

Lluniwyd y fframwaith gan ddefnyddio egwyddorion *Damcaniaeth Seiliedig Lluniadaethol gan Charmaz* (2014).¹¹ Er enghraifft, gwnaed y gwaith cychwynnol o greu'r fframwaith drafft drwy ddadansoddi data gan ddefnyddio codio anffurfiol o ganlyniadau'r diwrnod ymgynghori yn ogystal â dogfennau polisi a deddfwriaeth. Defnyddiodd gwaith dadansoddi data pellach o'r gweithgareddau ymgynghori ffurfiol a'r gwaith o greu'r fframwaith terfynol egwyddorion samplio damcaniaethol. Y prif awduron drafftio a golygu oedd Sara Roberts, Ruth Crowder a Dr Rob Orford.

11 www.uk.sagepub.com/en-gb/eur/constructing-grounded-theory/book235960